GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg University Health Board

**DEDDF RHYDDID GWYBODAETH (FOIA) 2000**

**Y DDEDDF**

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl mynediad cyhoeddus i rychwant o gofnodion a gwybodaeth a ddelir gan wahanol gyrff cyhoeddus. Daeth i rym ar 1af Ionawr 2005 ac mae'n gymwysadwy yng nghyswllt unrhyw wybodaeth heblaw am eithriadau penodol.

**Y CYNLLUN CYHOEDDI**

Dechreuwyd gweithredu'r Ddeddf ym mis Hydref 2003 pan ddaeth yn ofynnol ar bob corff cyhoeddus i ddarparu 'Cynllun Cyhoeddi'. Mae Cynllun Cyhoeddi Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg yn cynnwys gwybodaeth cyffredinol am y Bwrdd Iechyd ac yn egluro pa wybodaeth sydd ar gael yn rhwydd i'r cyhoedd.

Gellir gweld Cynllun Cyhoeddi Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM ar y wefan:

http://www.abm.wales.nhs.uk

Mae copi papur ar gael gan y Cydlynydd Rhyddid Gwybodaeth, ym Mhrif Swyddfeydd Bwrdd Iechyd Prifysgol ABM, Un Porthfa Talbot, Baglan, Port Talbot SA12 7BR. Ffôn: 01639 683348,
e-bost: FOIA.Requests@ wales.nhs.uk

**HAWLIAU AC YMRWYMIADAU ALLWEDDOL DAN DDEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000**

**Mae gan y Ceisydd**

- yr hawl i wneud cais ysgrifenedig am gael gwybodaeth (trwy lythyr neu e-bost), gan roi enw a chyfeiriad fel y gall y Bwrdd Iechyd ateb
- yr hawl i gael ei hysbysu mewn ysgrifen a yw'r wybodaeth a geisir ar gael.

**Y Bwrdd Iechyd**

- mae dyletswydd ar y Bwrdd Iechyd i roi cyngor a chymorth rhesymol i unrhywun sy'n gwneud cais
- rhaid iddo geisio ymateb o fewn 20 niwrnod gwaith a hysbysu'r Ceisydd os na ellir gwneud hyn
- nid oes rhaid iddo ryddhau gwybodaeth os oes darpariaeth dan y Ddeddf sy'n cyfiawnhau eithriad diamod
- rhaid iddo ystyried rhyddhau gwybodaeth er lles y cyhoedd os yw hyn yn gymwys
- dylai ddarparu'r wybodaeth a geisir, a hynny yn y fformat a geisir lle bo'n ymarferol
- nid oes rhwymedigaeth arno i gydymffurfio â chais penodol os yw'r costau'n uwch na'r swm aruchaf a ganiateir o ran ffioedd ar gyfer hyn
- os yw'n gwrthod cais, rhaid iddo ddweud pam wrth y Ceisydd a datgan ar ba eithriad y seiliwyd y penderfyniad
- rhaid iddo gynnal Cynllun Cyhoeddi wedi'i ddiweddaru a chyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r Cynllun hwn.

**PARCHU HAWL YR UNIGOLYN I GYFRINACHEDD**

Nid yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn newid hawl unigolion, boed yn gleifion neu'n aelodau staff, i ddisgwyl y bydd y wybodaeth bersonol y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei chadw amdanynt yn cael ei diogelu. Mae cynnal yr hawl gyfreithiol i sicrhau cyfrinachedd pob gwybodaeth bersonol yn dal i fod yn ymrwymiad pwysig i'r Bwrdd Iechyd.

**EIN HYMRWYMIAD I CHI**

- Bod mor agored ag y gallwn ni mewn perthynas â'r gwaith a wnawn ni
- Gwneud ein gorau i roi ichi unrhyw wybodaeth yr ydych chi'n ei cheisio
- Cadw at y graddfeydd amser gofynnol
- Atgyfeirio unrhyw gwynion ynghylch rhyddhau gwybodaeth at Adolygiad Mewnol gan rywun na chwaraeodd ran yn y penderfyniad gwreiddiol.

Os ydych chi o hyd yn anfodlon, fe gewch chi gyfeirio unrhyw bryderon sydd gennych chi at y Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
Ffôn: 029 2044 8044
**e-bost: cymru@ico.gsi.gov.uk**